

Cynghorion Cyfweiliadau – Paratoi ar gyfer eich Cyfweiliad

- Cadarnhewch eich presenoldeb. Os oes gennych unrhyw broblemau, cysylltwch â'r sefydliad cyn gynted â phosibl i aildrefnu.
- Rhowch wybod i'r sefydliad a oes angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol.
- Ceisiwch ddarganfod pa fath o gyfweiliad y byddwch chi'n ei gael - a fydd yn ffurfiol/anffurfiol?
- Gwnewch eich gwaith cartref! Beth mae'r sefydliad yn ei wneud? Beth yw eu gwerthoedd?
- Cyfeiriwch at y disgrifiad swydd a'r fanyleb person i edrych ar ba sgiliau, profiad a rhinweddau y mae'r sefydliad yn chwilio amdany'n nhw. Hefyd, ceisiwch gadw mewn cof beth wnaethoch chi ysgrifennu yn eich ffurflen gais neu'ch CV.
- Dylech ymarfer eich techneg cyfweld. Meddyliwch am rai cwestiynau gan ymarfer sut gallech chi eu hateb.
- Paratowch rai cwestiynau. Meddyliwch am yr hyn yr hoffech chi ei wybod am y rôl neu'r tîm er enghraifft.
- Edrychwch ble mae'r cyfweiliad yn cael ei gynnal a chynlluniwch eich siwrnai. Mae hefyd yn dda cael cynllun wrth gefn, er enghraifft beth os yw eich bws yn torri i lawr ar y ffordd?
- Casglwch unrhyw dystysgrifau, dulliau adnabod neu dystiolaeth y gofynnwyd i chi fynd â nhw i'r cyfweiliad.
- Cadwch rif cyswllt rhag ofn y bydd unrhyw broblemau ar y dydd.
- Gwisgwch yn briodol - smart a phroffesiynol.

Cynghorion ychwanegol ar gyfer cyfweiliadau rhithiol

- Lawrlwythwch unrhyw feddalwedd cyfarfod a fydd yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, Microsoft Teams, Zoom.

- Dewiswch le addas, er enghraifft, dewch o hyd i ystafell dawel gyda goleuadau da a thynnwch unrhyw luniau cefndir o'r golwg lle bo'n bosibl.
- Gwnewch yn siŵr bod eich camera, eich meicroffon a'ch cysylltiad i'r we i gyd yn gweithio.
- Gwnewch nodyn o rif yr alwad ffôn fideo rhag ofn y byddwch chi'n cael unrhyw drafferthion wrth gysylltu â'r cyfweiliad.